

POLISI DATGANIADAU I'R WASG

Mae datgelu gwybodaeth bersonol am drigolion Porthmadog neu Gynghorwyr Cyngor Tref Porthmadog mewn cyhoeddiad printiedig yn mynd yn groes i egwyddorion sylfaenol gwarchod preifatrwydd y Ddeddf Diogelu Data 2018.

Er mwyn diogelu enw da Cyngor Tref Porthmadog a'r berthynas rhwng y Cyngor Tref â'r gymuned doeth fyddai neilltuo unrhyw ohebiaeth neu ddatganiad i'r Wasg i ofal y Clerc, y Cadeirydd neu'r Is - Gadeirydd.

Golyga hyn felly :-

- Bydd y Clerc yn gyfrifol am roi adroddiad byr o weithgareddau'r Cyngor Tref yn fisol yn Yr Wylan.
- Enw'r Clerc fydd ar waelod yr adroddiad.
- Bydd gwybodaeth a roir ar ran neu yn enw'r Cyngor Tref mewn adran ar ei ben ei hun ac nid yn adran newyddion Porthmadog.
- Bydd Golygydd cyfredol Yr Wylan yn penderfynu os yw am gynnwys yr adroddiad yn Yr Wylan.
- Ni enwir Cynghorwyr mewn adroddiad i'r Wylan.
- Y Clerc, y Cadeirydd neu'r Is – Gadeirydd yn unig gaiff ymateb, ar ran y Cyngor Tref, i unrhyw gais am sylwadau ar y cyfryngau.
- Bydd hawl gan Gynghorwyr i siarad â'r Wasg fel unigolion and nid ar ran y Cyngor Tref.

Arwyddwyd: AledGriffith
Cadeirydd 2023 - 2024

Dyddiad : Mai 9 2023